

Cyfeirnod(au) y Papur

6959/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a

Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 9: Cyfathrebiadau a

Rhwydweithiau

Ionawr 2010

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Dylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

W37931A



W850/R6959/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2010 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Senario

Castell Dornton

Ym 1880, prynodd Amos Dornton adfeilion (*ruins*) castell canoloesol a adeiladwyd yn wreiddiol ym 1352, a'i ailenwi'n Gastell Dornton. Cafodd rhai rhannau o'r castell eu hatgyweirio fel ffoli (*folly*) gan Amos ac adeiladwyd maenordy mawr gerllaw i Amos fyw ynddo.

Dros y blynyddoedd, mae pob cenhedlaeth o'r teulu Dornton wedi ymestyn yr eiddo, gan ychwanegu gerddi, stablau, llety i'r gweision a'r morynion, ac adeiladau eraill. Erbyn hyn, mae Castell Dornton yn gasgliad gwasgarog o adeiladau a manau awyr agored sy'n ymestyn dros sawl erw.

Y pechenogion presennol yw Christopher a Sarah Dornton, sy'n byw yn un adain o'r maenordy. Mae gweddill Castell Dornton yn cael ei reoli ganddynt fel atyniad i dwristiaid, canolfan gynadledda a lleoliad ar gyfer digwyddiadau

Eu menter ddiweddaraf yw cynnal digwyddiadau Chwarae Rôl Byw (*Live Action Role Play (LARP)*) o'r enw '*Warriors, Wizards, and Witches*'. Mae grwpiau o bobl yn llogi rhannau o Gastell Dornton ac yna'n actio eu hanturiaethau ffantasi gan ddefnyddio cleddyfau rwber, powdrau hud (*spell powders*) ac ati.

Mae Christopher a Sarah wedi gwyllo nifer o ddigwyddiadau *LARP* ac wedi sylweddoli bod modd gwella rhai agweddau ar yr anturiaethau er mwyn denu mwy o gwsmeriaid.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae pob grŵp yn treulio llawer o'u hamser eu hunain yn gosod yr antur at ei gilydd cyn ei fod yn dechrau
- mae'n rhaid iddynt ddefnyddio aelodau'r grŵp yn gwisgo mygydau i gynrychioli cymeriadau nad ydynt yn bobl, anifeiliaid, ysbrydion ac ati.
- nid ydynt yn siŵr at bwy mae'r hud (*spell*) yn cael ei anelu a pha effaith y dylai ei chael.

Mae rhywfaint o brofiad o effeithiau arbennig gan Christopher yn sgil gweithio yn y diwydiant ffilm ac mae Sarah wedi cynhyrchu digwyddiadau theatrig yn y castell. Maen nhw o'r farn bod bwlch yn y farchnad ac maen nhw eisiau defnyddio technoleg i greu anturiaethau mwy cyffrous. Yna, byddant yn codi tâl ar bobl i gymryd rhan, yn hytrach na dim ond llogi'r lleoliad i bobl.

Bydd pob anturiaethwr yn parhau i wisgo ei wisg a'i offer *LARP* ei hun. Bydd penset (*headset*) a menig yn cael eu rhoi iddynt. Bydd ceblau yn cysylltu'r rhain â gwarbac (*backpack*) bach sy'n cynnwys batris a derbynnydd-trosglwyddydd WiFi. Bydd y gwarbaciau hefyd yn cynnwys trawsatebwyr adnabod amledd radio (*radio-frequency identification (RFID) transponders*) sy'n ei gwneud yn bosibl nodi lleoliadau'r anturiaethwyr.

Bydd pob penset yn cynnwys taflunyddion (*projectors*) sy'n gallu dangos delweddau drwy bâr o gogls ymestyn realiti (*augmented reality*) i greu'r rhith (*illusion*) bod yr anturiaethwr yn edrych ar wrthrych. Bydd y penset a'r menig yn cynnwys synwryddion safle sy'n canfod (*detect*) symudiadau'r pen a'r dwylo.

Mae Christopher a Sarah Dornton eisoes wedi llofnodi contract â chwmni arall i ddarparu pecynnau'r anturiaethwyr (menig, gogls, pensetiau, derbynnyddion-trosglwyddwyr WiFi, trawsatebwyr, a meddalwedd ymestyn realiti).

Bydd staff Castell Dornton yn gwisgo i fyny ac yn actio'r gwrthwynebwyd dynol yn yr anturiaethau. Bydd creaduriaid ffantasi yn cael eu taflunio (*projected*) gan y pensetiau. Symudiadau'r dwylo fydd yn bwrw hud, gyda'u heffeithiau'n cael eu taflunio a seiniau addas yn cyd-fynd â nhw. Bydd y system hefyd yn rheoli effeithiau arbennig fel goleuadau, seiniau a mwg.


Bydd staff Castell Dornton yn gwisgo pensetiau sy'n debyg i rai'r anturiaethwyr, ond byddan nhw yn taflunio gwybodaeth a fydd yn helpu i redeg yr antur, fel map yn dangos lle mae pawb. Bydd microffon

a chlustffon yn eu pensetiau nhw hefyd fel bod y staff yn gallu siarad â'i gilydd. Bydd eu menig yr un fath â menig yr anturiaethwyr gan fod yn rhaid iddyn nhw allu bwrw hud hefyd.

Bydd canolfan reoli *LARP* newydd yn cael ei lleoli mewn adeilad gwag sy'n cynnwys un ystafell 15 metr sgwâr. Bydd y ganolfan reoli yn cael ei chysylltu â RhAL (*LAN*) presennol sy'n gwasanaethu gweddill yr adeiladau yng Nghastell Dornton. Mae gan yr adeilad gyflenwad pŵer ond dim cyfleusterau TG ac mae 20 metr i ffwrdd o'r gweinydd (*server*) *LAN* presennol.

Mae ardal antur *LARP*, sy'n cael ei ddangos ar y llinfap, yn cynnwys coedwig fechan, stablau, a rhan o'r hen gastell. Mae gan bob un o bedwar tŵr y castell seler danddaearol, llawr gwaelod, a dau lawr arall. Mae modd cyrraedd y llwybrau cerdded ar hyd y waliau drwy ddefnyddio'r drysau yn y tyrrau ar lefel y lloriau uwch. Mae digon o allfeydd (*outlets*) pŵer yn yr ardal antur ond nid oes isadeiledd rhwydwaith (*network infrastructure*) nac offer.

Llinfap o ardal antur *LARP*



Eich project

Ymgynghorydd TG ydych chi ac rydych wedi cael eich cyflogi gan y teulu Dornton i'w helpu nhw i osod y system *LARP* newydd.

Blaenoriaethau'r teulu Dornton ar gyfer y system newydd yw bod yn rhaid iddi fod:

- **yn ddibynadwy.** Mae technegydd rhan-amser sy'n delio â'r Ganolfan Gynadledda pan gaiff ei defnyddio. Bydd e'n cael ei gyflogi ar sail amser llawn fel ei fod yn gallu gofalu am y system *LARP* hefyd.
- **yn hawdd ei chynnal.** Pan fydd pethau'n treulio neu'n mynd o le, dylai fod yn hawdd gwneud atgyweiriadau ac amnewid rhannau
- **yn gadarn.** Bydd rhannau o'r system yn yr awyr agored
- **yn cynnig gwerth am arian.** Menter fusnes yw hon, felly rhaid gosod cyllidebau, eu cyfiawnhau, a chadw atynt.

Mae Christopher a Sarah yn gallu defnyddio TG yn eithaf da ond maent yn dibynnu ar eu technegydd i ffurfweddu (*configure*) a chynnal systemau TG Castell Dornton.

TUDALEN WAG